# Cyngor ar Sŵn

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

www.cymru.gov.uk




Y llyfryn hwn: Bydd y llyfryn hwn o gymorth ichi os ydych yn cael problemau â sŵn neu os hoffech wybod mwy am broblemau sŵn yn gyffredinol

# Beth allwch chi ei wneud ynglŷn â sŵn

Mae sŵn yn rhan o'n bywyd bob dydd ni gyd. Ond mae'n bosibl y bydd lefel ac amledd y sŵn sy'n dderbyniol i un person yn annerbyniol i rywun arall. Gall gormod o sŵn, fel cŵn yn cyfarth a cherddoriaeth uchel, effeithio ar ansawdd ein bywyd, ac achosi nosweithiau digwsg a straen. Os ydych chi'n cael problem â sŵn ar hyn o bryd, bydd y llyfryn hwn yn dweud wrthych sut i ddatrys y broblem:

- Mae **Rhan 1** yn disgrifio beth ydy sŵn, ac yn rhestru rhai o'r ffyrdd y gallwn ni gyd fod yn fwy ystyriol o'n cymdogion o ran y sŵn a wnawn.
- Mae **Rhan 2** yn esbonio beth allwch chi ei wneud am sŵn sy'n cael ei wneud gan gymdogion, safleoedd masnachol a diwydiannol lleol, a cherbydau. Mae hefyd yn dweud sut i gwyno ac yn sôn am y gwahanol ddewisiadau sydd ar gael i ddelio â'r broblem.
- Mae **Rhan 3** yn disgrifio dulliau eraill o ddelio â gwahanol fathau o sŵn, gan gynnwys dulliau rheoli sŵn newydd a gyflwynwyd yn 2014.
- Mae **Rhan 4** yn esbonio sut allwch chi gymryd rhan mewn penderfyniadau cynllunio i atal problemau sŵn. Mae hefyd yn sôn am rôl mapiau sŵn a chynlluniau gweithredu.
- Mae **Rhan 5** yn cynnwys rhestr o fanylion cysylltu a allai fod yn ddefnyddiol ichi.

**Ymwadiad:** Mae'r llyfryn hwn yn disgrifio'n fyr wahanol brosesau cyfreithiol, ond ni ddylech gymryd hyn fel cyngor ar sut yn union mae'r gyfraith yn gweithio.




# Rhan 1

## Beth yw sŵn?

Yn gyffredinol, ystyr sŵn yw sain nad ydych eisiau neu sain sy'n achosi niwed ichi. Caiff cryfder sain ei fesur mewn desibelau, ond nid cryfder sain yw'r unig beth sy'n gwneud pobl yn ddig. Mae sain annisgwyl, neu sain sy'n sefyll allan o'r cefndir fel curiad bas ailadroddus, ci yn cyfarth, a larwm tŷ neu larwm car yn gallu bod yn fwy diflas na seiniau eraill o'r un cryfder.

Mae sŵn yn effeithio fwyaf ar bobl mewn dwy ffordd, sef achosi diflastod a'u cadw'n effro.

**Mae sŵn yn effeithio fwyaf ar bobl mewn dwy ffordd, sef achosi diflastod a'u cadw'n effro...**




120 desibel
Clwb nos, 1 metr o flaen yr uchelseinydd

100 desibel
Dril niwmatig, 5 metr i ffwrdd

90 desibel
Cerbyd nwyddau trwm, sydd i'w glywed o'r palmant
Peiriant torri gwair, yn agos at glust y sawl sy'n torri

70 desibel
Sugnydd llwch, 3 metr i ffwrdd
Ffôn yn canu, 2 fetr i ffwrdd

60 desibel
Sgwrs arferol

50 desibel
Tegell yn berwi, hanner metr i ffwrdd

40 desibel
Oergell yn hymian, 2 fetr i ffwrdd

30 desibel
Seiniau arferol y nos

0 desibel
Trothwy clywed

# Sut i fod yn ystyriol a chadw'r heddwch â'ch cymydog

**Cerddoriaeth a'r teledu**

Os yw'n bosibl, cadwch eich teledu a'ch unedau sain yn ddigon pell oddi wrth waliau eich cymdogion a chodwch nhw oddi ar y llawr os oes modd. Meddyliwch pa mor uchel yw'r sain neu defnyddiwch glustffonau.

**Gwaith tŷ**

Meddyliwch ddwywaith cyn torri'r lawnt neu ddechrau gwaith DIY ar doriad gwawr, yn enwedig ar y penwythnos. Efallai eich bod chi'n codi'n fore, ond gallai pobl eraill fod eisiau gorffwyso. Peidiwch â defnyddio'r sugnydd llwch na'r peiriant golchi dillad pan fydd pobl yn cysgu.

**Lloriau laminedig a phren caled**

Peidiwch â gosod llawr laminedig neu galed oni bai eich bod wedi sicrhau bod y llawr oddi tano yn wastad a chlir a dylech bob amser ddefnyddio isgarped fel bod llai o sŵn traed yn cario. Mae'r haen ychwanegol hon yn helpu i lefelu'r islawr, yn atal yr uniadau rhag cracio ac yn helpu i ymestyn oes y llawr. Er nad yw'r isgarped yn atal pob sŵn, ac er ei fod gryn dipyn yn llai effeithiol na charped, bydd yn helpu i leihau'r sŵn traed sy'n cario drwy'r llawr.

**Cael parti**

Os byddwch chi'n trefnu parti, bydd eich cymdogion yn debygol o fod yn fwy goddefgar os gwnewch eu rhybuddio ymlaen llaw – beth am eu gwahodd draw hyd yn oed. Peidiwch â difetha'u noson nhw beth bynnag – ac anogwch eich gwesteion i ddangos parch atynt hefyd.

**Adnabod eich cymdogion**

Ceisiwch fod yn ystyriol o gymdogion sy'n gweithio sifftiau nos ac sy'n gorfod cysgu ar adegau anghyffredin o'r dydd. Ni fyddant yn disgwyl cael cystal tawelwch ag sydd i'w gael yn ystod y nos, ond os wnewch chi geisio peidio â gwneud sŵn i'w deffro, byddant yn teimlo'n llai blinedig pan fydd raid iddynt godi a mynd i'r gwaith.

Os oes gennych gymdogion sy'n hŷn neu'n wael, neu sydd newydd gael babi a bod hynny'n amharu ar eu patrymau cysgu arferol, fe allech wneud gwahaniaeth iddynt drwy fod ychydig yn dawelach nag arfer.

**Cŵn**

Efallai fod cŵn yn cyfarth am eu bod yn unig. Gall cyfarth neu udo di-baid darfu ar eich cymdogion. Ni fydd ci hapus, sydd wedi'i hyfforddi'n dda, yn cyfarth yn ddiangen.

**Larymau lladron**

Gwnewch yn siŵr y gellir cysylltu â rhywun sydd ag allwedd os bydd y larwm lladron yn canu tra byddwch chi oddi cartref. Gwnewch yn siŵr ei fod yn cael ei gynnal a'i gadw'n rheolaidd fel nad yw'n canu ar ddamwain. Dylai unrhyw un sy'n gyfrifol am safle sydd â larwm, boed yn eiddo domestig neu'n fusnes, sicrhau bod ei awdurdod lleol yn cael manylion cyswllt y prif ddeiliad allwedd a'r ail ddeiliad allwedd, os oes modd. Mae hyn yn bwysig dros ben ar gyfer larymau nad ydynt yn diffodd yn awtomatig ar ôl seinio am 20 munud. Cysylltwch â'ch awdurdod lleol i holi am y systemau sydd ganddynt i gadw cofnod o fanylion larymau.

**Beiciau modur**

Mae sŵn beic modur yn wahanol iawn i sŵn traffig arall. Ni ddylai perchnogion addasu'r system ecsôst na'r distewydd ar eu beiciau modur i'w gwneud yn fwy swnllyd, gan fod hyn yn debygol o darfu ar unrhyw un sydd o fewn clyw a'u cadw ar ddeffro, a gallai fod yn anghyfreithlon.

Mae'n drosedd dan *Reoliadau Cerbydau Ffyrdd (Adeiladwaith a Defnydd) 1986* i gerbyd gael ei ddefnyddio ar ffordd yn y fath fodd fel ei fod yn creu gormod o sŵn y gellid bod wedi'i osgoi drwy fod y gyrrwr yn cymryd gofal rhesymol.

**Cerbydau eraill**

Meddyliwch am sŵn stereo eich car gan wneud yn siŵr nad yw eich cerddoriaeth yn amharu ar eraill, yn enwedig pan fyddwch wedi parcio neu'n aros am rywun. Gwnewch yn siŵr fod larwm eich car yn gweithio'n iawn. Cofiwch gynnal a chadw eich car yn iawn, gyrrwch yn llyfn, heb oryrru, diffoddwch y car pan fydd yn llonydd a cheisio peidio â refio'r injan, clepian drysau na defnyddio'r corn heblaw pan fydd angen rhybuddio am berygl.

Fel gyda beiciau modur, gallai gwneud gormod o sŵn o gerbydau o fathau eraill hefyd fod yn drosedd dan *Reoliadau Cerbydau Ffyrdd (Adeiladwaith a Defnydd) 1986*.



# Rhan 2

## Beth i’w wneud os oes gennych broblem â sŵn?

Rydych chi wedi cael digon ar glywed stereo eich cymydog yn chwarae yn y nos, felly beth allwch chi ei wneud? Peidiwch â dioddef yn dawel. Y cam cyntaf bob amser yw ystyried siarad yn gwrtais â’ch cymdogion a chodi’r mater yn uniongyrchol gyda nhw. Efallai y byddwch yn teimlo bod hyn yn anodd ac yn creu gwrthdaro, ond yn aml iawn nid yw pobl yn ymwybodol eu bod yn achosi problem. Felly, mae’n bosibl y bydd eich cymydog yn hapus i wneud llai o sŵn. Ond byddwch yn ofalus os ydych yn meddwl y gallai ymateb eich cymydog fod yn negyddol.

Os nad ydych yn teimlo y gallwch siarad yn uniongyrchol â’ch cymydog, gallech ystyried rhoi nodyn drwy’r drws neu hyd yn oed lythyr yn y post, wedi’i eirio’n gwrtais, i’w wneud yn ymwybodol o’r broblem. Byddai hynny’n ffordd o dynnu ei sylw at y broblem yn ddienw. Efallai nad ymddygiad anystyriol yw’r broblem bob tro. Yn yr un modd, os mai busnes lleol sy’n gwneud y sŵn, cysylltwch yn uniongyrchol â nhw.

Os bydd y sŵn yn parhau, gallech ddechrau cadw dyddiadur sŵn, gan nodi dyddiadau ac amseroedd yr aflonyddwch a’r effaith arnoch, fel methu â chysgu. Gallech ysgrifennu at eich cymydog, gan ddefnyddio’r wybodaeth yn eich dyddiadur i gefnogi’ch achos, a phwysleisio pa mor ddifrifol yw’r broblem.

**Cyfryngu – dod i gytundeb**

Os na fydd eich cymydog yn gwneud llai o sŵn, a bod y sŵn yn parhau, dylech ystyried cyfryngu, pan fydd unigolyn arall annibynnol yn gwrando ar safbwyntiau’r ddwy ochr ac yn ceisio’u helpu i ddod i gytundeb. Er bod hyn yn swnio’n anodd, mae cyfryngu’n dod yn fwyfwy poblogaidd ac mae’n gallu bod yn ffordd effeithiol o ddatrys anghydfod. Mae’n bosibl y bydd gan eich awdurdod lleol fwy o wybodaeth am gyfryngu.

Fel rheol, mae’n well datrys anghydfod gyda chymdogion yn anffurfiol. Dim ond pan fydd pob ffordd arall wedi methu y dylech gysylltu â’ch awdurdod lleol neu gymryd camau cyfreithiol. Mae’n debygol iawn y bydd eich perthynas â’ch cymydog yn gwaethygu os gwnewch gŵyn ffurfiol yn eu herbyn.

**Sut mae gwneud cwyn?**

Os bydd y broblem yn parhau a’ch bod eisiau cwyno’n ffurfiol, gallech gysylltu â’ch awdurdod lleol, yr adran iechyd yr amgylchedd fel arfer. Mae’r gyfraith yn dweud bod rhaid i awdurdodau lleol ymchwilio i gwynion am sŵn sy’n dod o safleoedd (tir ac adeiladau) a cherbydau, peiriannau neu offer ar ffyrdd neu strydoedd yn eu hardal.

O dan *Ddeddf Diogelu’r Amgylchedd 1990*, mae’n ddyletswydd ar awdurdodau lleol i ddelio ag unrhyw sŵn neu ddirgrynu y maent yn ei ystyried yn “niwsans statudol”. Mae’r Ddeddf hon hefyd yn ymdrin â sŵn y disgwylir iddo ddigwydd neu ailddigwydd.

**Beth fydd yr awdurdod lleol yn ei wneud?**

Mae’n bosibl y bydd yr awdurdod lleol yn anfon swyddog iechyd yr amgylchedd i’ch cartref i benderfynu a oes niwsans statudol ai peidio. Does dim rheol ynghylch faint o sŵn sy’n creu niwsans statudol. Rhaid i swyddog iechyd yr amgylchedd benderfynu a yw’r gyfraith yn cael ei thorri yn yr amgylchiadau penodol hynny.

Os daw’r swyddog i’r casgliad fod y sŵn yn niwsans statudol, gall gymryd camau’n syth. Os nad yw’r sŵn i’w glywed drwy’r amser, gallai’r swyddog ofyn ichi gadw dyddiadur o’r dyddiadau a’r amseroedd pan fo’r sŵn i’w glywed a/neu alw eto er mwyn ceisio clywed y sŵn ei hun.

**Cyflwyno hysbysiad atal**



Gallai’r awdurdod lleol geisio datrys y broblem yn anffurfiol – drwy berswadio’r sawl sy’n gwneud y sŵn i roi’r gorau iddi neu wneud llai o sŵn, fel nad yw’n achosi niwsans statudol dim mwy. Os bydd hyn yn methu neu os yw’n debygol o fethu, a’u bod yn fodlon bod y sŵn yn creu niwsans statudol, rhaid iddynt gyflwyno “hysbysiad atal” i’r sawl sy’n gyfrifol. Os na ellir dod o hyd i’r person hwnnw, bydd yn rhaid cyflwyno’r hysbysiad i berchennog neu breswylydd y safle. Gallai’r hysbysiad fynnu bod y sŵn yn peidio’n gyfan gwbl, yn cael ei leihau, neu’n cael ei gyfyngu i adegau penodol o’r dydd. Gall y sawl sy’n derbyn yr hysbysiad apelio yn ei erbyn i lys yr ynadon, cyn belled â’u bod yn gwneud hynny cyn pen 21 diwrnod.

**Methu â chydymffurfio â hysbysiad atal**

Os bydd rhywun yn methu â chydymffurfio â hysbysiad atal heb esgus rhesymol, bydd wedi cyflawni trosedd. Gallai’r llys ynadon roi dirwy o hyd at £5,000 am droseddau sy’n ymwneud â safleoedd domestig a cherbydau preifat. Gellir rhoi dirwy bellach o hyd at £500 y dydd os bydd y drosedd yn parhau ar ôl y gollfarn. Pan fydd y niwsans statudol yn digwydd ar safleoedd diwydiannol, masnach neu fusnes, £20,000 yw’r ddirwy uchaf. (Sylwer: Mae’r cosbau a’r dirwyon hyn yn cael eu hadolygu o bryd i’w gilydd.)

Mae gan awdurdodau lleol yr hawl, dan amodau penodol, i fynd i mewn i safleoedd er mwyn gweithredu ar niwsans sŵn statudol. Larymau lladron sy’n achosi hyn amlaf. Maent hefyd yn cael mynd i mewn at gerbydau, peiriannau neu offer neu eu symud sydd yn creu niwsans statudol drwy fod yn swnllyd a thorri hysbysiad atal.

**Dewisiadau eraill i’r awdurdod lleol**

Os bydd yr awdurdod lleol yn teimlo y bydd cyflwyno hysbysiad atal yn amhriodol neu’n annigonol i ddelio â phroblem sŵn, gallai ddewis defnyddio un o’r pwerau eraill sydd ganddo i ddelio â’r sefyllfa. Mae Rhan 3 o’r llyfryn hwn yn sôn am y dewisiadau hyn.

## Beth os na fydd yr awdurdod lleol yn gwneud dim?

Os na fydd yr awdurdod lleol yn gwneud dim, dan *Ddeddf Diogelu'r Amgylchedd 1990* gallwch gwyno'n uniongyrchol i'r llys ynadon. Byddai'n syniad da ichi ddweud wrth eich awdurdod lleol eich bod yn bwriadu gwneud hyn. Efallai y gall adran iechyd yr amgylchedd yn eich awdurdod lleol roi cyngor ichi ynghylch sut i fynd ati i gwyno neu gysylltu efo eu safle we.

Bydd angen perswadio'r llys ynadon fod y broblem sŵn yn niwsans statudol, felly mae'n bwysig ichi gadw dyddiadur sŵn. Cofiwch gadw cofnod o ddyddiadau ac amseroedd y sŵn annifyr ac am faint mae'n para, a hefyd ddisgrifiad o natur y sŵn a'r gofid mae'n ei achosi ichi yn eich cartref.



## Rhoi rhybudd teg o'ch bwriad

Ceisiwch ddelio â'r broblem yn anffurfiol cyn cysylltu â'r llys ynadon. Ysgrifennwch at y sawl sy'n gyfrifol am y sŵn, gan ddweud y byddwch yn cwyno i'r llys oni bai bod y sŵn yn lleihau o fewn amser penodol, fel pythefnos. Os ydych yn gwybod o ble y daw'r sŵn ond nad ydych yn gwybod pwy sy'n ei achosi, cysylltwch â pherchennog neu breswylydd y safle.

Ar ôl ichi benderfynu eich bod am gwyno i'r llys, rhaid ichi roi o leiaf dri diwrnod o rybudd i'r sawl sy'n gwneud y sŵn, gan nodi'ch bwriad, a rhoi manylion eich cwyn iddynt. Gwnewch yn siŵr fod eich llythyr wedi'i ddyddio a chofiwch gadw copi ohono.

## Gweithio gyda'r llys ynadon

Efallai y byddai'n ddefnyddiol ichi gael cyngor gan dwrnai neu'r Ganolfan Cyngor ar Bopeth cyn dechrau achos llys. Weithiau, bydd cymorth cyfreithiol ar gael, ond dylech fod yn barod am y posibilrwydd o orfod talu costau mynd â'r achos i'r llys. Bydd y costau hyn yn cynnwys eich costau chi, costau eich twrnai os oes gennych un, a chostau unrhyw dystion fydd yn cefnogi eich achos.

Pan fyddwch yn cysylltu â'r llys, esboniwch eich sefyllfa mor glir â phosibl. Efallai y bydd angen ichi ymweld â'r llys er mwyn iddynt esbonio'r drefn wrthych, ac efallai y bydd gofyn ichi gyflwyno tystiolaeth o'r broblem. Bydd hyn yn dangos i'r ynadon fod gennych achos credadwy. Dylech hefyd hysbysu'r llys eich bod wedi rhoi gwybod i'r adran iechyd yr amgylchedd yn yr awdurdod lleol am y broblem.

Bydd y llys yn penderfynu a ellir codi gwŷs a gallai ofyn i chi ei chyflwyno (drwy'r post neu â llaw) i'r sawl sy'n gyfrifol am y sŵn, gan nodi dyddiad ac amser y gwrandawiad llys. Os chi fydd yn cyflwyno'r hysbysiad, dylech gadw cofnod cywir a sicrhau ei bod yn cael ei gyflwyno cyn dyddiad y gwrandawiad.

Yn y gwrandawiad, bydd raid ichi fynd i'r llys i roi tystiolaeth. Mae'n bosibl y bydd y sawl sy'n gyfrifol am y sŵn hefyd yn dod i'r llys i'w amddiffyn ei hun, gan eich cyhuddo chi o bethau hefyd o bosibl. Nid oes rhaid ichi gael cyfreithiwr i'ch cynrychioli yn y gwrandawiad, er bod hynny'n cael ei ganiatáu.

**Y canlyniad – ennill neu golli**

Os bydd y llys yn penderfynu o'ch plaid, bydd yn gwneud "hysbysiad atal" yn gofyn i'r troseddwr atal y sŵn a/neu ei wahardd rhag digwydd eto, gan nodi'r camau y bydd yn rhaid iddo'u cymryd. Gallai'r llys hefyd roi dirwy.

Os bydd y llys yn penderfynu bod y niwsans statudol yn bodoli ar ddyddiad gwneud y gŵyn, mae'n rhaid iddynt orchymyn y sawl sy'n gwneud y sŵn i dalu swm sy'n ddigon rhesymol ym marn y llys i'ch ad-dalu am unrhyw gostau a dalwyd gennych i ddod â'r achos i'r llys. Bydd y llys yn rhoi'r costau hyn ichi, heb ystyried a yw'r niwsans statudol yn parhau nac a oes gorchymyn atal yn cael ei wneud.

Os caiff yr achos ei daflu allan, chi fel rheol fydd yn talu'ch costau cyfreithiol eich hun, a gallech hefyd gael eich gorchymyn i dalu costau'r ochr arall.

**Beth os bydd y sŵn gormodol yn parhau?**

Mae'n drosedd i unrhyw un anwybyddu gorchymyn atal, heb esgus rhesymol.

Dylech ddal i lenwi eich dyddiadur sŵn, rhag ofn i'r gorchymyn atal gael ei anwybyddu ac y bydd rhaid mynd yn ôl i'r llys. Yr un fyddai'r drefn ar gyfer mynd i'r llys eto ag ar gyfer yr achos gwreiddiol.

Gallwch gymryd camau sifil drwy'r gyfraith gyffredin ar gyfer niwsans sŵn, drwy geisio cael gwaharddeb i atal y diffynnydd rhag parhau â'r niwsans a/neu drwy hawlio am ddifrod neu golled.

**Beth os nad ydych yn fodlon â'r ffordd y deliodd yr awdurdod lleol â'ch cwyn**

Os ydych yn anfodlon â'r ffordd y mae eich awdurdod lleol wedi delio â'ch cwyn am sŵn, gallwch wneud cwyn ffurfiol yn ei erbyn. Mae gan y rhan fwyaf o awdurdodau lleol drefn gwyno ffurfiol. Cyfeiriwch y gŵyn at Brif Weithredwr neu Swyddog Monitro'r awdurdod. Neu, gallwch gysylltu â'ch cynghorydd lleol.

**Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru**

Os ydych chi'n dal yn anfodlon ag ymateb eich awdurdod lleol i'ch cwyn ffurfiol am ei wasanaeth, gallwch gwyno wrth yr Ombwdsmon. Mae Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru yn ddeiliad swydd annibynnol sy'n ymchwilio'n ddiduedd i gamweinyddu neu fethiant yng ngwasanaeth corff cyhoeddus, fel, pan fydd awdurdod lleol yn methu â delio'n foddhaol â chŵyn. Mae gwasanaeth yr Ombwdsmon yn

annibynnol ac mae ar gael am ddim. Ond, ni all yr Ombwdsmon gwestiynu penderfyniad awdurdod lleol dim ond am fod rhywun yn anghytuno ag ef.

Cyn cysylltu â'r Ombwdsmon, rhaid ichi fod wedi cwyno wrth eich awdurdod lleol yn gyntaf. Rhaid i unrhyw gŵyn i'r Ombwdsmon gael ei gwneud cyn pen 12 mis o'r dyddiad y gwnaethoch eich cwyn i'r awdurdod lleol. Ond rhaid i'r awdurdod lleol fod wedi cael cyfle i ymateb i'r gŵyn cyn y bydd yr Ombwdsmon yn ymchwilio.

# Rhan 3

## Dulliau eraill o reoli sŵn

Dulliau rheoli eraill yw'r rhain a fu o gwmpas ers blynyddoedd lawer ac fe allant helpu i atal neu dawelu sŵn o ffynonellau penodol.

**Is-ddeddfau**

Mae rhai awdurdodau lleol wedi creu is-ddeddfau er mwyn rheoli mathau penodol o sŵn. Er enghraifft, mae is-ddeddfau wedi cael eu pasio ar gyfer rhai mathau o sŵn sy'n digwydd ar y stryd neu ar eiddo awdurdodau lleol fel parciau neu diroedd hamdden. Gallai'r mathau o sŵn a reolir gan yr is-ddeddfau hyn gynnwys canu, chwarae offerynnau cerddorol, radios a stereos. Holwch eich awdurdod lleol am fanylion unrhyw is-ddeddfau ar gyfer eich ardal chi.

**Uchelseinyddion yn y stryd**

Mae *Deddf Rheoli Llygredd 1974* yn gwahardd defnyddio uchelseinydd yn y stryd rhwng 9 pm ac 8 am, oni bai bod yr uchelseinydd yn cael ei ddefnyddio mewn argyfwng neu o dan amgylchiadau penodol iawn eraill. Mae defnyddio uchelseinydd ar gyfer hysbysebu, adloniant, masnach neu fusnes wedi'i wahardd ar unrhyw adeg oni bai bod yr uchelseinydd yn cael ei ddefnyddio i hysbysebu nwyddau darfodus i'w bwyta gan bobl, er enghraifft faniau hufen iâ, rhwng hanner dydd a 7 pm, neu ddyn sioe deithio ar dir sy'n cael ei ddefnyddio ar gyfer ffair bleser.

**Codau ymarfer statudol**

Mae codau ymarfer statudol yn rhoi arweiniad ar ddulliau addas o leihau mathau penodol o sŵn. Gallant gynnwys materion megis sŵn sydd i'w glywed o larymau lladron, clychau faniau hufen iâ, awyrennau model a safleoedd adeiladu. Mae gwybodaeth am y codau ymarfer statudol sydd mewn grym yng Nghymru ar hyn o bryd i'w chael ar-lein yn www.wales.gov.uk/topics/environmentcountryside/epq/noiseandnuisance/codes-of-practice

Pan geir achos troseddol am fethiant honedig i gydymffurfio â hysbysiad atal yn gysylltiedig â sŵn ar safle diwydiannol, masnachol neu fusnes neu sŵn ar y stryd a achosir gan gerbyd, peiriant neu offer sy'n cael eu defnyddio at ddibenion diwydiannol, masnachol neu fusnes, mae'n rhaid i'r llys ynadon ystyried y codau ymarfer hyn wrth benderfynu a gafodd y "dulliau ymarferol gorau" eu defnyddio i atal, neu leddfu effeithiau'r sŵn. Mewn amgylchiadau o'r fath, os gall y sawl sy'n gwneud y sŵn brofi ei fod wedi defnyddio'r dulliau ymarferol gorau, yna bydd ganddo amddiffyniad i'r achos.

**Sŵn o safleoedd adeiladu**



Er mwyn helpu i leihau'r llygredd sŵn a achosir gan waith adeiladu a dymchwel angenrheidiol, mae gan yr awdurdod lleol y pŵer i ddweud sut ddylid gwneud y gwaith, cyfyngu ar oriau gwaith y safle a'r lefel sŵn sy'n cael dod o'r safle. Dylai'r sawl sy'n bwriadu gwneud gwaith o'r fath holi'r awdurdod lleol cyn dechrau, gan ofyn beth yw'r gofynion.

Pan fydd ffordd neu reilffordd newydd yn cael ei gosod yn agos at eich cartref, efallai y bydd gennych hawl i gael grant tuag at gostau inswleiddio rhag sŵn.

Rhaid i'r awdurdod lleol roi ystyriaeth i unrhyw god ymarfer statudol perthnasol wrth gyflwyno hysbysiad sy'n gosod gofynion am sut ddylid gwneud y gwaith o safbwynt safleoedd adeiladu.

**Deddf Sŵn 1996**

Mae *Deddf Sŵn 1996* yn cyflwyno trosedd sŵn yn y nos, ac mae'n rhoi pwerau i awdurdodau lleol fynd ag offer gwneud sŵn i ffwrdd. Mae'r Ddeddf yn cynnig safon ar gyfer asesu sŵn yn y nos (rhwng 11pm a 7am), o safleoedd domestig a thrwyddedig. Mae'r drosedd o wneud sŵn yn y nos yn cyd-fynd â'r cyfyngiadau statudol ar sŵn y mae Rhan 2 o'r llyfryn hwn yn sôn amdanynt. Mae'n rhoi'r gallu i swyddogion awdurdodau lleol ddefnyddio trefn sy'n glir a diamwys i ddelio'n gyflym â phroblemau sŵn yn y nos o dai a safleoedd trwyddedig. Y gosb am drosedd sŵn yn y nos yw erlyn, ond gallai swyddogion yr awdurdod lleol gynnig dewis i'r troseddwr, sef talu cosb benodedig o £100 (£500 mewn rhai amgylchiadau) yn hytrach.

**Cwyno am denantiaid swnllyd**

Mae gan bob landlord y gallu i weithredu yn erbyn tenantiaid sy'n torri eu cytundeb tenantiaeth. Gallai hyn gynnwys gwneud cais am waharddeb a all leihau'r niwsans gan gymdogion gan alluogi pobl i gadw'u cartrefi. Gall landlordiaid cymdeithasol (awdurdodau lleol a chymdeithasau tai) ofyn i'r llysoedd ychwanegu hawl arestio at waharddeb os oes trais, neu fygythiad o drais.

Y cam eithaf un fyddai i'r landlord droi'r tenant o'i gartref petai'n gwrthod newid ei ymddygiad ac yn parhau i amharu ar fywydau ei gymdogion.

# Deddf Ymddygiad Gwrthgymdeithasol, Troseddu a Phlismona 2014

Mae dulliau rheoli newydd ar gael i'w defnyddio ers ar ôl 2014.

**Gwaharddeb sifil**

Os yw dulliau anffurfiol o ddelio ag ymddygiad gwrthgymdeithasol ar ffurf sŵn wedi methu, gall y "waharddeb sifil" fod yn amddiffyniad cyflym ac effeithiol i ddioddefwyr a chymunedau a gosod safon ymddygiad clir i droseddwyr, gan atal y broblem rhag gwaethygu. Gall awdurdodau lleol, landlordiaid cymdeithasol, yr heddlu, Cyfoeth Naturiol Cymru neu NHS Protect (Cymru) wneud cais am waharddeb gan y llys. Os caniateir y waharddeb bydd y llys yn cyflwyno un a fydd yn mynnu bod y troseddwyr yn gwneud / peidio â gwneud pethau penodol er mwyn delio â'u hymddygiad gwrthgymdeithasol. Mae torri'r waharddeb yn cael ei gyfrif a'i gosbi fel dirmyg llys, a gall oedolion gael hyd at ddwy flynedd yn y carchar neu ddirwy ddiderfyn.

**Hysbysiad amddiffyn cymunedol**

Os oes ymddygiad afresymol ar ffurf sŵn sy'n effeithio ar ansawdd bywyd cymuned yn parhau ar ôl cyhoeddi rhybudd i'r troseddwr, yna caiff awdurdodau lleol, yr heddlu a landlordiaid cymdeithasol (os yw'r awdurdod lleol wedi'u dynodi at y diben hwn) gyflwyno "hysbysiad amddiffyn cymunedol" (CPN) sy'n dweud wrth unigolyn neu fusnes beth mae'n rhaid iddynt ei wneud i beidio ag effeithio ar ansawdd bywyd y gymuned. Un enghraifft fyddai pan mae unigolyn yn chwarae cerddoriaeth yn uchel mewn parc. Os yw'r swyddog wedi gofyn i'r unigolyn ddiffodd y gerddoriaeth ac yntau wedi gwrthod gwneud hynny, gellid ystyried ei fod yn barhaus ei natur a gallai CPN gael ei gyhoeddi. Mae torri CPN yn drosedd, y gellir ei gosbi gyda hysbysiad cosb benodedig, dirwy os ceir collfarn, talu am waith adfer neu fforffedu eitemau.

Nid yw cyhoeddi CPN yn rhyddhau'r awdurdod lleol o'i ddyletswydd i gyflwyno hysbysiad atal os yw'r ymddygiad yn cael ei ystyried yn niwsans statudol. Ni ellir ond cyflwyno CPN ar gyfer ymddygiad sy'n barhaus neu'n parhau ac yn afresymol, felly, yn y rhan fwyaf o achosion, bydd gan landlordiaid cymdeithasol neu'r heddlu ddigon o amser i gysylltu ag adran iechyd yr amgylchedd yr awdurdod lleol cyn cyflwyno CPN os ydynt yn credu y gallai'r ymddygiad gael ei ystyried yn niwsans statudol. Os ydyw, mae'n bosibl y byddant eisiau ystyried a yw cyhoeddi CPN yn angenrheidiol. Os ydynt yn penderfynu cyhoeddi CPN hefyd, dylent weithio gyda'r awdurdod lleol i sicrhau bod unrhyw gyfyngiadau neu ofynion yn ategu'r rhai y gellir eu cynnwys mewn unrhyw hysbysiad atal i'r dyfodol.

**Gorchymyn gwarchod mannau cyhoeddus**

Bwriad gorchmynion gwarchod mannau cyhoeddus (PSPO) yw delio â niwsans neu broblem benodol mewn ardal benodol sy'n niweidiol i ansawdd bywyd y gymuned leol, drwy osod amodau sy'n berthnasol i bawb ar ddefnyddio'r ardal honno. Y nod yw sicrhau bod mwyafrif y bobl sy'n ufudd i'r gyfraith yn gallu defnyddio a mwynhau mannau cyhoeddus, yn ddiogel rhag ymddygiad gwrthgymdeithasol.

Gall awdurdod lleol roi PSPO ar ôl cysylltu â'r heddlu a chyrff perthnasol eraill. Os bydd yr heddlu neu awdurdod lleol yn gweld ymddygiad sy'n torri amodau PSPO ar gyfer yr ardal lle mae'n digwydd, a bod y troseddwr yn methu â chydymffurfio â chais i adael yr ardal, na chymryd pa bynnag gamau eraill sydd eu hangen i sicrhau eu bod yn cydymffurfio, yna, maent yn troseddu a gallent wynebu cosbau fel hysbysiad cosb benodedig neu ddirwy os cânt eu collfarnu.

**Sail absoliwt ar gyfer meddiannu**

Pwrpas y sail absoliwt newydd ar gyfer meddiannu yw cyflymu'r broses o droi tenantiaid allan mewn achosion lle mae ymddygiad gwrthgymdeithasol neu droseddu eisoes wedi cael ei brofi gan lys arall, er enghraifft yn dilyn collfarn am dorri hysbysiad atal sŵn. Gan na fydd angen i'r landlord brofi mwyach ei bod yn rhesymol caniatáu meddiant, bydd y llys yn fwy tebygol o wneud penderfyniad am achosion mewn un gwrandawiad, byr. Bydd hyn yn sicrhau cydbwysedd gwell rhwng hawliau dioddefwyr a throseddwyr, ac yn delio â'r mater yn gynt i ddioddefwyr, tystion a'r gymuned. Ar gyfer yr achosion mwyaf difrifol o ymddygiad gwrthgymdeithasol yn unig y mae'r sail absoliwt newydd, a dylai landlordiaid sicrhau na chaiff y sail ei defnyddio'n ormodol.

**Darllen mwy**

*Reform of anti-social behaviour powers – Statutory guidance for frontline professionals*
www.gov.uk/government/publications/anti-social-behaviour-crime-and-policing-bill-anti-social-behaviour (Saesneg yn unig)



# Rhan 4

## Cynllunio i osgoi problemau sŵn

Gall y system gynllunio defnydd tir helpu i atal problemau sŵn posibl. Er enghraifft, gellir lleoli datblygiadau diwydiannol swnllyd ymhell oddi wrth ysgolion ac ysbytai, a gellir dylunio datblygiadau tai newydd mewn ffordd sy'n gwarchod y preswylwyr rhag sŵn o'r ffyrdd. Mae modd gosod amodau hefyd ar ganiatâd cynllunio, er mwyn rheoli sŵn o dafarndai, clybiau a thai bwyta drwy gyfyngu ar eu horiau agor.

Mae awdurdodau lleol yn paratoi cynlluniau datblygu ar gyfer eu hardal, a dylid ystyried sŵn fel rhan o'r cynlluniau hyn.


Cyflwynir ceisiadau am ganiatâd cynllunio i awdurdodau cynllunio lleol. Mae sŵn yn aml yn ystyriaeth wrth benderfynu ar geisiadau cynllunio.

Os ydych yn poeni bod datblygiad arfaethedig yn debygol o arwain at sŵn, neu os oes angen mwy o wybodaeth arnoch am gynllun datblygu lleol neu gais cynllunio penodol, cysylltwch â'r swyddog cynllunio lleol ar gyfer eich ardal.

Mae'n ofynnol i awdurdodau priffyrdd gyhoeddi manylion ffyrdd newydd arfaethedig ac mae gan y cyhoedd hawl i wrthwynebu ar unrhyw sail, gan gynnwys sŵn. Mae Llywodraeth Cymru yn gyfrifol am ddatblygu traffyrdd a chefnffyrdd yn unig. Eich awdurdod lleol yw'r cyswllt ar gyfer pob ffordd arall. Dylid anfon gwrthwynebiad at yr awdurdod priffyrdd perthnasol yn ystod y cyfnod gwrthwynebu, gan esbonio eich rheswm dros wrthwynebu. Mewn rhai achosion, caiff ymchwiliad cyhoeddus ei gynnal ac, os ydych wedi gwrthwynebu, cewch wybod am hynny ymlaen llaw.

**Darllen mwy**

*Polisi Cynllunio Cymru – Pennod 13*
www.wales.gov.uk/topics/planning/policy/ppw



# Mapiau sŵn a chynlluniau gweithredu

Mae'r Gyfarwyddeb Sŵn Amgylcheddol yn mynnu bod llywodraethau'n gwneud mapiau sŵn a chynlluniau gweithredu ar gyfer eu meysydd awyr, eu rheilffyrdd a'u ffyrdd prysuraf ac ar gyfer eu dinasoedd a'u trefi mwyaf, ac yn eu hadolygu o leiaf unwaith bob pum mlynedd. Mae'r mapiau sŵn diweddaraf ar gyfer rheilffyrdd a ffyrdd mawr a dinasoedd a threfi mawr yng Nghymru wedi cael eu cyhoeddi ac maent i'w gweld yn http://data.wales.gov.uk/apps/noise/?lang=cy

Mae *Cynllun gweithredu ynghylch sŵn i Gymru 2013-2018*, a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru yn Rhagfyr 2013, yn cynnwys addewidion i hoelio'r sylw ar y rheini sy'n dioddef y lefelau sŵn uchaf (pobl sy'n byw mewn "mannau â blaenoriaeth", ar ddiogelu a gwella mannau gwyrdd trefol tawel (gan gynnwys "mannau tawel" dynodedig), ac ar adolygu a diweddaru'r arweiniad ar sŵn lle bo angen er mwyn sicrhau bod gan gyrff rheoleiddio'r offer mae arnynt eu hangen i wneud eu gwaith.

Gallwch lwytho i lawr fapiau sy'n dangos mannau tawel dynodedig oddi ar www.wales.gov.uk/topics/environmentcountryside/epq/noiseandnuisance/environmentalnoise/noisemonitoringmapping/1stroundquietareas

**Sŵn traffig ffyrdd a rheilffyrdd**

Mae mannau â blaenoriaeth o ran sŵn traffig ffyrdd a rheilffyrdd wedi cael eu dewis o fapiau sŵn 2012 ac o'r wybodaeth a gafwyd gan asiantau cefnffyrdd, awdurdodau lleol a'r bobl a ymatebodd i'r ymgynghoriad ar y cynllun gweithredu ynghylch sŵn yn 2013. Gallwch weld lle mae'r mannau â blaenoriaeth hyn ar wefan Llywodraeth Cymru yn www.wales.gov.uk/topics/environmentcountryside/epq/noiseandnuisance/environmentalnoise/noisemonitoringmapping/priority-areas

Mae'r mannau â blaenoriaeth ar y rhwydwaith traffyrdd a chefnffyrdd wedi cael eu rhestru yn nhrefn blaenoriaeth, yn seiliedig ar gryfder y sŵn ac a gafwyd cwynion, ymysg pethau eraill. Rhoddir sylw i'r rhain yn raddol yn y drefn honno dros y blynyddoedd nesaf, yn dibynnu ar y cyllidebau fydd ar gael ar gyfer gwaith o'r fath. Gallai rhai cael sylw'n gynt os bydd y ffyrdd yn cael wyneb newydd am resymau ar wahân i sŵn. Ni fydd yr holl fannau â blaenoriaeth yn cael sylw yn ystod pum mlynedd y cynllun gweithredu presennol. Bydd cwynion a dderbynnir gan Lywodraeth Cymru yn cael eu cofnodi a'u defnyddio i benderfynu ar beth fydd y blaenoriaethau mewn cynlluniau gweithredu i'r dyfodol.

Dylai awdurdodau lleol ystyried mannau â blaenoriaeth ar ffyrdd awdurdodau lleol wrth gynllunio a gwneud eu dyletswyddau perthnasol fel gwneud cynllun gweithredu ynghylch ansawdd aer, cynnal a chadw ffyrdd, rhaglenni diogelwch ar y ffyrdd, cynllunio defnydd tir a thrafnidiaeth, a phlannu coed a chynnal a chadw.

Mae'r rheilffyrdd mwyaf swnllyd yng Nghymru i gyd i fod i gael eu trydaneiddio yn y blynyddoedd nesaf, a dylai hyn eu gwneud yn dawelach nag y maen nhw'n awr. Dylai unrhyw bryderon am sŵn rheilffyrdd gael eu cyfeirio at Network Rail a'r cwmnïau trenau.

**Darllen mwy**

*Cynllun gweithredu ynghylch sŵn i Gymru 2013-2018*
www.wales.gov.uk/topics/environmentcountryside/epq/noiseandnuisance/environmentalnoise/noisemonitoringmapping/noise-action-plan

# Rhan 5

## Gyda phwy ddylwn ni gysylltu?

**Eich awdurdod lleol**

Gallwch gysylltu ag adran iechyd yr amgylchedd eich awdurdod lleol i wneud cwyn am sŵn niwsans neu am ymddygiad gwrthgymdeithasol o bron bob math o eiddo. Mae adran drafnidiaeth eich awdurdod lleol yn gyfrifol am sŵn o ffyrdd nad ydynt yn gefnffyrdd, ac mae ei adran gynllunio yn gyfrifol am wneud cynllun datblygu lleol yr ardal ac am wneud y rhan fwyaf o benderfyniadau cynllunio ar ddefnydd tir.

Mae eich awdurdod lleol hefyd yn gyfrifol am orfodi iechyd a diogelwch, gan gynnwys amddiffyn clyw gweithwyr, mewn swyddfeydd anllywodraethol, siopau, gwestai, bwytai, adeiladau hamdden, meithrinfeydd a grwpiau chwarae, tafarndai a chlybiau, amgueddfeydd preifat, addoldai, llety gwarchod a chartrefi gofal.
www.wales.gov.uk/topics/localgovernment/local-authorities

**Awdurdod Hedfan Sifil**

Mae Cyfarwyddiaeth Polisi Gofod Awyr yr Awdurdod Hedfan Sifil yn gyfrifol am dderbyn ac ymateb i ymholiadau amgylcheddol am hedfan, gan gynnwys cwynion am sŵn awyrennau.
www.caa.co.uk/default.aspx?catid=810&pagetype=90 (Saesneg yn unig)

Cewch hefyd gwyno am sŵn yn uniongyrchol wrth feysydd awyr unigol. Er enghraifft, gallwch gysylltu â thîm ymholiadau amgylcheddol Maes Awyr Caerdydd naill ai drwy e-bostio environment@cwl.aero neu drwy eu ffonio ar 01446 729368.

**Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch (HSE)**

Yr HSE sy'n gyfrifol am orfodi iechyd a diogelwch, gan gynnwys amddiffyn clyw gweithwyr, mewn gweithleoedd fel ffatrïoedd, ffermydd, safleoedd adeiladu, safleoedd niwclear, cloddfeydd, ysgolion a cholegau, ffeiriau, safleoedd nwy, trydan a dŵr, ysbytai a chartrefi nyrsio, adeiladau llywodraeth leol a'r llywodraeth ganol a safleoedd ar y môr.
www.hse.gov.uk/contact/raising-your-concern.htm (Saesneg yn unig)

| | |
|---|---|
| E-bost: | concerns@hse.gsi.gov.uk |
| Tîm pryderon: | 0300 0031647 |

**Y Weinyddiaeth Amddiffyn (MOD)**

Gallwch gysylltu â'r MOD i wneud cwyn am awyrennau milwrol sy'n hedfan yn isel.
www.gov.uk/low-flying-in-your-area/complaints (Saesneg yn unig)

| | |
|---|---|
| E-bost: | cas-lowflying@mod.uk |
| Cwynion am awyrennau milwrol: | 0845 6007580 |

### Cyfoeth Naturiol Cymru

Gallwch gysylltu â Cyfoeth Naturiol Cymru i gwyno am sŵn o safle diwydiannol mawr fel gorsaf bŵer, gwaith dur, safle tirlenwi neu orsaf trosglwyddo gwastraff. Mae rhediad safle o'r fath yn cael ei reoli drwy "drwydded amgylcheddol" sy'n gallu cyfyngu ar faint o lygredd, gan gynnwys sŵn, sy'n cael dod allan i'r amgylchedd. Os yw safle'n torri amodau ei drwydded, gall Cyfoeth Naturiol Cymru (neu, yn achos safle diwydiannol llai, yr awdurdod lleol) gymryd camau gorfodi. Dylai'r drwydded atal y safle rhag achosi niwsans statudol. Os nad yw'n gwneud hynny, gallwch ofyn i'ch awdurdod lleol gymryd camau.
www.naturalresourceswales.gov.uk/report-it/information-on-report-it

| | |
|---|---|
| E-bost: | ymholiadau@cyfoethnaturiolcymru.gov.uk |
| Llinell ddigwyddiadau: | 0800 807060 |

### Network Rail

Network Rail yw perchennog seilwaith a gweithredwr y rhwydwaith trenau cenedlaethol. Mae nifer o gwmnïau trenau teithwyr a threnau cludo nwyddau unigol yn darparu'r gwasanaethau. Gall un sefydliad unigol fod yn gyfrifol am faterion sŵn neu gall nifer o sefydliadau rannu'r cyfrifoldeb hwn. Cyfrifoldebau Network Rail yw cynnal a chadw ochr llinellau, ansawdd traciau, adnewyddu a chynnal a chadw seilwaith, gwaith peirianyddol, cyfyngiadau cyflymder a materion eiddo.

Mae gwefan Network Rail yn dweud wrth y cyhoedd sut mae materion sŵn rheilffyrdd yn cael sylw, a sut i wneud cwyn, naill ai i Network Rail ei hun ar ei linell gymorth 24-awr, os yw'n ymwneud â chyflwr y trac, neu fel arall i un o'r cwmnïau trenau.
www.networkrail.co.uk/aspx/1030.aspx (Saesneg yn unig)

| | |
|---|---|
| Llinell gymorth: | 0845 7114141 |

### Llywodraeth Cymru (ar gyfer sŵn traffyrdd a chefnffyrdd)

Llywodraeth Cymru sy'n gyfrifol am faterion sŵn sy'n dod o'r rhwydwaith traffyrdd a chefnffyrdd. Gallwch anfon cwyn am sŵn o'r ffyrdd hyn at yr Is-adran Rheoli'r Rhwydwaith neu ysgrifennu'n uniongyrchol at y Gweinidog Trafnidiaeth. Bydd y wybodaeth a roddwch yn cael ei hystyried mewn cylchoedd gwneud cynlluniau gweithredu ar sŵn i'r dyfodol ar gyfer prif ffyrdd yng Nghymru.

Is-adran Rheoli'r Rhwydwaith
Trafnidiaeth
Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
Caerdydd
CF10 3NQ

www.wales.gov.uk/contact_us

| | |
|---|---|
| E-bost: | cymorth@cymru.gsi.gov.uk |
| Ffôn (Saesneg): | 0300 0603300 |
| Ffôn (Cymraeg): | 0300 0604400 |

# Manylion cysylltu eraill

Mewn rhai achosion, dim ond gwefannau Saesneg ar gael.

**Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru**

1 Ffordd yr Hen Gae, Pencoed, CF35 5LJ
http://www.ombudsman-wales.org.uk/cy-GB.aspx
Ffôn: 0300 7900203

**Llywodraeth Cymru (am wybodaeth am sŵn nad yw'n ymwneud ag achos penodol)**

www.wales.gov.uk/topics/environmentcountryside/epq/noiseandnuisance
E-bost (sŵn yn y gymdogaeth): leq@cymru.gsi.gov.uk
E-bost (sŵn amgylcheddol): swn.amgylcheddol@cymru.gsi.gov.uk

**Action on Hearing Loss**

www.actiononhearingloss.org.uk/about-us/wales.aspx
E-bost: informationline@hearingloss.org.uk
Llinell wybodaeth: 0808 8080123

**British Tinnitus Association**

www.tinnitus.org.uk
E-bost: info@tinnitus.org.uk
Llinell gymorth: 0800 0180527

**Sefydliad Siartredig Iechyd yr Amgylchedd Cymru**

www.cieh-cymruwales.org

**Cyngor ar Bopeth**

www.citizensadvice.org.uk/index/getadvice.htm
Llinell Gyngor: 0344 4772020

**Environmental Protection UK**

www.environmental-protection.org.uk

**Institute of Acoustics**

www.ioa.org.uk
E-bost: ioa@ioa.org.uk
Ffôn: 0172 7848195

**Noise Abatement Society**

www.noiseabatementsociety.com
E-bost: info@noise-abatement.org
Llinell gymorth: 0127 3823850

**UK Noise Association**

www.ukna.org.uk
E-bost: info@ukna.org.uk

ISBN digidol 978 1 4734 2594 1
© Hawlfraint y Goron 2014
WG23198